


# Adroddiad Blynyddol i Rieni
## Annual Report to Parents
## 2024-2025

**Pennaeth** / Headteacher: Eirian Jones
**Cadeirydd** / Chair: Kate Olsen
**Is-Gadeirydd** / Vice: Ruth Harris

# Cynnwys:


1. Neges gan Gadeirydd y Llywodraeth 2
2. Gair gan y Pennaeth 3
3. Newyddion Academaidd 5
4. Gweithgareddau Allgyrsiol 6
5. Diweddariadau 13



# Neges gan Cadeirydd y Llywodraeaethwyr:

## Kate Olsen

**Annwyl Riant / Gofalwr,**

Rwy'n falch o gyflwyno ein hadroddiad blynyddol i rieni ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25 a gobeithio y byddwch yn gweld y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol.

Fel corff llywodraethu, rydym yn gweithio'n agos gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth i gefnogi gweledigaeth yr ysgol, gan sicrhau bod ein hadnoddau a'n strategaethau wedi'u halinio â'r nod o welliant parhaus. Mae'r dyfodol yn ddisglair i Ysgol Gwent Is Coed, ac rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gynnal y safonau uchel sydd wedi diffinio ein hysgol wrth groesawu heriau ac arloesiadau newydd.

Ar ran y corff llywodraethol, hoffwn ddiolch i Mrs Eirian Jones a'r tîm cyfan am eu penderfyniad a'u hymdrech barhaus i sicrhau bod Ysgol Gwent Is Coed yn parhau i adeiladu ar eu llwyddiant ac i ddarparu profiad dysgu i bob disgybl sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i amgylchedd ffurfiol yr ystafell ddosbarth. Ar draws yr ysgol, mae staff yn cynnig eu hamser yn hael i fynd gyda'n disgyblion ar ystod eang o brofiadau y tu allan i oriau ysgol.

Diolch i chi gyd.



**Kate Olsen** (Cadeirydd y llywodraethwyr)



# Gair gan y Pennaeth:
## Eirian Jones

**Annwyl riant / gofalwr,**

Braint a phleser yw cael cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn i gymuned yr ysgol yn dilyn fy mhumed blwyddyn yma fel Pennaeth Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Mae blwyddyn academaidd 2024-2025 wedi bod yn llwyddiant mawr gyda canlyniadau arholiadau rhagorol yn enwedig canlyniadau lefel A lle rydym yn y 25% gorau ym Mhrydain.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur llawn profiadau diddorol. Credaf bod gweithgareddau'r ysgol wedi bod yn gyfoethog ac yn effeithiol a hoffwn ddiolch i holl gymuned yr ysgol am eu brwdfrydedd a'u parodrwydd i barhau i weithio gyda mi a chynnig cefnogaeth ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Hoffwn longyfarch Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 ar eu canlyniadau arbennig yn yr arholiadau allanol a gynhaliwyd yn Haf 2025. Y sgôr 9 wedi'i gapio ar gyfer blwyddyn 11 oedd 382 sy'n ail o fewn ein teulu o ysgolion cymharol am y drydydd flwyddyn yn olynnol. Roedd canlyniadau yn y pynciau craidd yn dda iawn gyda:

- 65% o ddysgwyr blwyddyn 11 yn ennill A* - C mewn Cymraeg Iaith
- 75% A* -  C yn Llenyddiaeth Cymraeg
- 64% yn Saesneg Iaith a 90% yn Llenyddiaeth Saesneg
- Llwyddodd 58% o'r dysgwyr i gael A* - C mewn mathemateg rhifedd.

Mae 34 o'r flwyddyn wedi dychwelyd i'r ysgol i barhau â'u hastudiaethau ôl-16 tra bod bron bob dysgwr arall wedi mynd ymlaen i'r coleg neu wedi dechrau prentisiaethau. Dymunaf y gorau iddynt oll wrth iddynt gymryd y camau nesaf ar eu taith.

Roedd ein canlyniadau Lefel A yn rhagorol gyda 29% o'r holl raddau yn A* - A gydag 81% yn ennill A* - C. Llwyddodd pob dysgwr Blwyddyn 13, a ymgeisiodd i fynd i brifysgol, i sicrhau lle yn eu dewis cyntaf. Mae'r holl ganlyniadau yn galonogol iawn ac yn dyst i waith caled pob dysgwr ac aelod o staff.

Yn dilyn dod allan o adolygiad Estyn ym mis Gorffennaf 2023 mae'r ysgol yn parhau ar ei thaith gwella gyda Chynllun Datblygu Ysgol (CDY) cynhwysfawr. Yn ystod y flwyddyn ymgymerodd pob aelod o staff yn llawn â'r blaenoriaethau ar gyfer datblygiad a bu modd i ni ddangos cynnydd da iawn ar gyfer pob un o'r rhain mewn trafodaeth broffesiynol gyda Cyngor Dinas Casnewydd. Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd yn sicrhau bod  yr holl flaenoriaethau wedi cael eu bodloni'n effeithiol.

**Yn ystod y flwyddyn academaidd croesawyd staff newydd i'r ysgol:**

Morgan Ward - athro Cymraeg
Lucy Scott - athro gwyddoniaeth
Tomos Evans - athro addysg gorfforol (dros dro)
Morgan Pritchard (athro dyniaethau dros dro)

**Wedi ein gadael:**

Jennifer Browne - Arweinydd Cynhwysiant
Anys Jones - Uwch-Arweinydd Lles a Chynnydd / Cymraeg
Kaly Cartwright - Athro Dyniaethau / Seicoleg a Chymdeithaseg
Lowri Edwards - Pennaeth Cynorthwyol
Bethan Simons - Athro Saesneg
Mel Turnbull - Rheolwr Busnes
Heledd Evans - Athro Drama (dros dro)
Dylan Morgan - Athro Addysg Gorfforol

Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus trwy gydol y flwyddyn. Rwy'n hyderus y gallwn barhau i weithio gyda'n gilydd er mwyn parhau â'r cynnydd rhagorol a wnaed ac edrychaf ymlaen at 2025-2026 llwyddiannus.

Cofion cynnes,
**Eirian Jones**
(Pennaeth)



# Newyddion Academaidd

## Eirian Jones

### Datganiad ar arholiadau allanol

**Canlyniadau TGAU**

- Sgôr 9 wedi'i gapio - 382
- Sgôr pwyntiau cymharol llythrennedd - 43.6
- Sgôr pwyntiau cymharol rhifedd - 34.8
- Sgôr pwyntiau cymharol gwyddoniaeth - 37.1
- Sgôr her sgiliau - 41.3

**Canlyniadau Lefel A**

- A*-A - 29%
- A* - C - 81%
- A* - E – 97%

**Nosweithiau a Chyswllt Rhieni**

Cynhaliwyd Nosweithiau Rhieni yn yr ysgol ar gyfer blynyddoedd 7 i 13.

**Cefnogaeth ADU**

Mae Ms Rebecca Chadwick yr ALENCo yn parhau i arwain yr ysgol wrth weithredu'r ddeddf ADY newydd cychwynwyd ym mis Ionawr 2022. Mae pob dysgwr o bob grŵp blwyddyn bellach wedi trosglwyddo i'r system. Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol, gan fynychu clingau a chyfarfodydd er mwyn gwerthuso ein pontio llwyddiannus i'r bil ADY newydd.

Rydym hefyd wedi sefydlu dosbarth bach ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY, sef yr 'Hafren', lle mae gan ddysgwyr gwricwlwm wahaniaethol, unigol. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i gael mynediad i ddosbarthiadau prif ffrwd lle bo'n briodol, ond hefyd i gael mwy o gymorth pan fo angen.

**Mynediad ar gyfer DysgwyrDisgyblion Anabl**

Mae'r corff llywodraethol yn ystyriol o ofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DGSA) 1995 a Deddf Anghenion Arbennig ac Anabledd (SENDA) 2005 yn ei weithredoedd a'i weithgareddau dyddiol.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol ac (os byddant yn dymuno) mewn gweithgareddau fel clybiau ar ôl yr ysgol, digwyddiadau hamdden / chwaraeon ac ymweliadau addysgol. Mae pob agwedd ar hygyrchedd, gan gynnwys mynediad at wybodaeth ysgrifenedig, wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio a'r cynllun hygyrchedd.

Mae lifft o'r llawr gwaelod i'r llawr uchaf sy'n sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad i bob lefel yn yr adeilad. Mae'r cyfleusterau Arlwyo yn cynnwys hob / popty a sinc y gall defnyddwyr cadeiriau olwyn eu defnyddio i sicrhau mynediad cyfartal i'r rhan hon o'r cwricwlwm i bob dysgwr.

# Gweithgareddau Allgyrsiol

**Gweithgareddau allgyrsiol:**

**30/09/24 - Catalyst Cymru blwyddyn 8 / Year 8 Catalyst Cymru**
**7/10/24 - Her Peirianneg ICE bl12 / Year 12 ICE Engineering Challenge**
**10/10/24 - Diwrnod Iechyd Meddwl / Mental Health Awareness Day**
**11/10/24 - Cyfarfod Uwch Gyngor Casnewydd bl7 / Year 7 Newport Grand Council Meeting**
**14/10/24 - Wythnos Gwrth-hiliol / Anti-racist week**
**14/10/24 - Gweithdy Pam Dysgu Ieithoedd bl9 / Year 9 Workshop on Why Learn Languages**
**16/10/24 - Gweithdy Pam Dysgu Ieithoedd bl9 / Year 9 Workshop on Why Learn Languages**
**16/10/24 - Gwasanaeth Sgiliau Adolygu bl11 / Year 11 Revision Skills Assembly**
**17/10/24 - Gwasanaeth Coleg Cymraeg bl12 a 13 / Year 12 and 13 Coleg Cymraeg Assembly**
**17/10/24 - Cwrs Dyfarnu Rygbi / Rugby Refereeing Course**
**18/10/24 - Diwrnod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth / Show Racism the Red Card Day**
**18/10/24 - Ffilmio Newyddion Ni / Newyddion Ni Filming**
**22/10/24 - Gwasanaeth GIG / NHS Assembly**
**26/10/24 - Taith yr Eidal / Italy Trip**
**8/11/24 - Ffilmio ITV Cymru a Llywodraeth Cymru / ITV Wales and Welsh Government Filming**
**11/11/24 - Taith STEM Merched bl8 / Year 8 Girls Stem Excursion**
**12/11/24 - Siop Gwisg Ysgol / School Uniform Shop**
**12/11/24 - Taith Seren bl10 / Year 10 Seren Excursion**
**13/11/24 - Gweithdy Seren Prifysgol Reading bl11 / Year 11 Seren Workshop Reading University**
**19/11/24 - 20/11/24 - Oliver**
**22/11/24 - Gweithdy Seren Prifysgol Reading bl10 / Year 10 Seren Workshop Reading University**
**26/11/24 – Gweithdy Seren Prifysgol Reading bl9 / Year 9 Seren Workshop Reading University**
**27/11/24 - Gweithdy Siarad Cyhoeddus Seren blwyddyn 9 / Year 9 Seren Public Speaking Workshop**

28/11/24 - lawnsio fideo trochi CDC / NCC immersion video launch

28/11/24 - hyfforddiant aflonyddu rhwyiol blwyddyn 12 / year 12 sexual harassment training

29/11/24 - taith Cymru v Iwerddon / Wales v Ireland trip

3/12/24 - gweithdy entrepreneuriaeth Gyrfa Cymru blwyddyn 10 / Careers Wales year 10 entrepreneurship workshop

3/12/24 - gweithdy Saeneg Prifysgol Met Caerdydd blwyddyn 11 / Year 11 English workshop Cardiff Met University

4/12/24 - taith celfyddydau mynegiannol i Lundain / expressive arts excursion to London

7/12/24 - gweithdy Prifysgol Exeter blwyddyn 12 / Year 12 workshop Exeter University

7/12/24 - taith Ieithoedd Rhyngwladol i Lille / International Languages excursion to Lille

10/12/24 - gweithdy newyddiaduriaeth Prifysgol Caerdydd / Cardiff University journalism workshop

10/12/24 - Diwrnod Hawliau Dynol / Human Rights Day

10/12/24 - gweithdy F1 mewn ysgolion / F1 in schools workshop

11/12/24 - gweithdy esports Cymru blwyddyn 9 / esports Wales workshop year 9

11/12/24 - Gweithdy Seren Prifysgol Reading bl8 / Year 8 Seren Workshop Reading University

17/12/24 - cyngerdd Nadolig pontio / transition Christmas concert

18/12/24 - Noson Carolau / Carol Evening

18/12/24 - diwrnod siwmper Nadolig / Christmas jumper day

19/12/24 - seremoni tystysgrifau TGAU a lefel A / GCSE and A level certificate presentation

19/12/24 - arwyddo dur Neuadd Chwaraeon / Sports Hall steel signing

8/01/25 - gweithdai MIT / MIT workshops

13/01/25 - cwrs seiclo / cycling course

14/01/25 - gweithdy arholiadau CAMHS / CAMHS exams workshop

16/01/25 - VESPA blwyddyn 12 / year 12 VESPA

17/01/25 - cyngor ysgol yn cyfarfod Jayne Bryant / school council meets Jayne Bryant

22/01/25 - gweithdy Gyrfa Cymru blwyddyn 11 Boygues / Boygues Careers Wales workshop year 11

24/01/25 - dathlu diwrnod santes Dwynwen / celebrating Saint Dwynwen's day

27/01/25 - gwasanaeth cofio'r Holocost / Holocaust Memorial Service

29/01/25 - mentor Ieithoedd Rhyngwladol blwyddyn 8 / Year 8 International Languages mentor

29/01/25 - cystadleuaeth siarad cyhoeddus y Rotari blwyddyn 12 / year 12 Rotary public speaking competition

29/01/25 - "roadshow" Prifysgol Exeter blynyddoedd 10 ac 11 / Exeter University Roadshow years 10 and 11

31/01/25 - gweithdy "Ar y Ffin" S4C blynyddoedd 12 a 13 / years 12 and 13 "Ar y Fin" workshop with S4C

4/02/25 - cystadleuaeth siarad cyhoeddus y Rotari blwyddyn 12 (rownd derfynol Cymru) / year 12 Rotary public speaking competition (Welsh final)

6/02/25 - hyfforddiant aflonyddu rhwyiol blwyddyn 13 / year 13 sexual harassment training

**7/02/25 - Dydd Miwsig Cymru / Welsh Music Day**

**10/02/25 - cystadleuaeth siarad cyhoeddus Seren blwyddyn 9 / year 9 Seren public speaking competition**

**11/02/25 - taith Saesneg a drama i Stratford Upon Avon / drama and English excursion to Stratford Upon Avon**

**14/02/25 - dathliad Dydd Gwyl dewi Ysgol Maesglas / St David's Day celebration at Ysgol Maesglas**

**18/02/25 - taith blwyddyn 12 i Auschwitz / Year 12 excursion to Auschwitz**

**13/05/25 - seremoni gwybrwyo Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth / Show Racism the Red Card prize giving ceremony**

**21/05/25 - rownd terfynol cystadleuaeth "National Literacy Trust" competition final round**

**26/05/25 - 30-05-25 - Eisteddfod yr Urdd**

**2/06/25 - gweithdy UCAS blwyddyn 12 / year 12 UCAS workshop**

**3/06/25 - gweithdy CSI blwyddyn 7 / year 7 CSI workshop**

**10/06/25 - ymweliad Eryr y Môr / sea eagle visit**

**10/06/25 - gweithdy Hawl i Hunaniaeth / Hawl i Hunaniaeth workshop**

**11/06/25 - ymweliad blwyddyn 12 ym Mhrifysgol Caerdydd / year 12 visit to Cardiff University**

**12/06/25 - gweithdy Energy Warriors blwyddyn 7 / year 7 Energy Warriors workshop**

**16/06/25 - cyflwyno siec Air Ambulance Wales / presenting a cheque to Air Ambulance Wales**

**16/06/25 - gweithdy meddygaeth blynyddoedd 11 ac 12 / year 11 and 12 medicine workshop**

**17/06/25 - taith arddangosfa gelf blwyddyn 10 / year 10 art exhibition excursion**

**18/06/25 - taith Catalyst Cymru blwyddyn 10 i brifysgol Rhydychen / year 10 Catalyst Cymru visit to Oxford University**

**23/06/25 - taith Big Pit yr Hafren / Hafren excursion to the Big Pit**

**24/06/25 - gweithdy tai cynaliadwy blwyddyn 7 ac 8 / sustainable homes workshop years 7 and 8**

**26/06/25 - gweithdai Gyrfa Cymru blwyddyn 10 / year 10 Careers Wales workshops**

**01/07/25 - Gweithdy cwn heddlu Blwyddyn 7 / Year 7 Police dog workshop**

**03/07/25 - Ffilmio Llywodraeth Cymru / Welsh Government filming**

**04/07/25 - Gweithdy Caergrawnt / Cambridge workshop**

**07/07/25 - Cwrs hyfforddi arweinwyr ifanc (Blwyddyn 10) / Young Leaders training course (Year 10)**

**07/07/25 - Taith Blwyddyn 12 / Year 12 trip**

**09/07/25 - Gweithdy STEM Semiconductors (Blwyddyn 10) / STEM Semiconductor workshop (Year 10)**

**10/07/25 - Taith Blwyddyn 8 i Ynys y Bari / Year 8 Trip to Barry Island**


**11/07/25 - Taith Blwyddyn 7 i Frystr / Year 7 trip to Bristol**

**16/07/25 - Taith Blwyddyn 9 i Ynys y Bari / Year 9 trip to Barry Island**

**16/07/25 - Taith Blwyddyn 10 i Ynys y Bari / Year 10 trip to Barry Island**



Gwaith maes Daearyddiaeth TGAU Bl.10 Kenfig ac Aberafan / Geography Field Work Bl.10 GCSE



Darlith gan Dr Gareth Hallett Davis o Brifysgol Abertawe i ddysgwyr bl 12 Hanes Ysgol Gwent Is Coed a Gwynllyw ar destun Y Rhyfel Oer / Lecture from Dr Gareth Hallett Davis from Swansea University to Year 12 Gwent Is Coed and Gwynllyw History students on the Cold War.



Taith Hanes (Blwyddyn 10) a Throseddeg (Blwyddyn 12) i garchar Shepton Malett / History Trip (Year 10) and Criminology Trip (Year 12) to Shepton Malott Prison.



Taith Adeiladwaith i'r Neuadd Chwaraeon Newydd / Construction trip to the new Sport's Hall.



Taith Blwyddyn 8 i'r National Literacy Trust (Rownd Terfynol y Cystadlaeth) / Year 8 trip to the National Literacy Trust (Grand Final) - Best Newcomers.



Taith Blwyddyn 9 o'r Gwyl y Gelli Gandryll / Year 9 Trip to the Hay on Wye Festival.





Taith Blwyddyn 9 i Williams Racing / Year 9 trip to William Racing.



Tîm athletau merched o dan 16 yn 4ydd yn Plât Cymru / Girls Under 16 Athletics Team came 4th in the Welsh Plate.









Bechgyn Bl. 7-10 yn 5ed yn Ne Cymru, Merched Bl. 7 - 8 yn 4ydd / Years 7-10 came 5th in South Wales and Years 7-8 Girls came 4th.



**Pencampwyr Athletau De Dwyrain Cymru** / **South East Wales Athletics Champions:** Mason  H, Teigan S, Daiton O'N, Armani H-D, Matthew M & Tim Cyfnewid y Merched / Girls Relay Team.

**Mason H - 3ydd yng Nghymru yn y naid drifflyg a'r naid uchel** / **Mason H - 3rd in Wales for the triple jump and the high jump.**
**Daiton O'N - 4ydd yng Nghymru yn y naid drifflyg** / **Daiton O'N for the triple jump.**
**Teigan S - 4ydd yng Nghymru yn y naid drifflyg** / **Teigan S - 4th in Wales for the triple jump.**



**Olivia B - Carfan Pel-droed merched a Bechgyn Cymru** / **Olivia B - Welsh Boys and Girls Squad.**



**Llwyddodd Gruffydd R-H a Kathryn L o flwyddyn 8 ddod yn y 10 uchaf yng Nghymru mewn cystadleuaeth Mathemateg. Roedd tua mil o ddysgwyr wedi cystadlu ledled Cymru. Cafwyd seremoni gwobrwyo yn y GwyddonLe ar faes Eisteddfod yr Urdd.** / **Gruffydd RH and Kathryn L from year 8 came in the top 10 in Wales in a Mathematics competition. Around a thousand learners had competed throughout Wales. There was an award ceremony at the GwyddonLe on the grounds of the Urdd Eisteddfod.**



**Taith y Hafren i'r Pwll Mawr /**

**The Hafren trip to the Big Pit.**



**Taith Catalyst Cymru i Rydychen / Welsh Catalyst Trip to Oxford University.**




**Gwaith Pontio**

Ein bwriad bob amser yw sicrhau bod pob disgybl yn dechrau eu hamser yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn frwd i ddatblygu ymhellach ac i adeiladu ar y cynnydd y maent eisoes wedi'i wneud yn ystod eu hamser yn yr ysgol gynradd. Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed a'r ysgolion cynradd wedi sefydlu partneriaeth ragorol ac rydym yn gweithio'n agos iawn i rannu gwybodaeth a datblygu cynlluniau er mwyn sicrhau bod cam cychwynnol y disgyblion yn un hapus a llwyddiannus.

**Cynhaliwyd y gweithgareddau canlnol yn ystod 2024-2025**

- Dwy noson rhieni yn yr ysgol (blwyddyn 5 a 6)
- Cyfle i bob dysgwr bl. 6 ymweld â'r ysgol ym mis Mehefin
- Cyfle i ddysgwyr bregus ymweld yn unigol
- Pob dysgwr bl. 6 wedi cymryd ran yn 'Nhrysor Gwent' yn Ysgol Gwent Is Coed
- Arweinydd Lles a Chynnydd Bl. 7 a CADY wedi ymweld â phob ysgol gynradd
- Trosglwyddo gwybodaeth academaidd a bugeiliol
- Trosglwyddo gwybodaeth Diogelu ac ADY.
- Blwyddyn 6 a 7 yn mynychu'r cyngerdd Nadolig Pontio yn Ysgol Gwent Is Coed
- Dysgwyr Blwyddyn 5 a 6 yn derbyn gwersi Ieithoedd Rhyngwladol gan athrawon Ysgol Gwent Is Coed.

**Gwybodaeth am Bresenoldeb**

Rydym yn gwbl glir bod dysgwyr yn dysgu orau pan fyddant yn yr ysgol, ac mae'n amlwg bod y mwyafrif o'n dysgwyr eisiau bod yn yr ysgol, ac yn gwerthfawrogi'r strwythur a'r fframwaith cymdeithasol y mae'n ei ddarparu, yn enwedig ar ôl blynyddoedd y pandemig a'r cyfnodau clo.

Ein presenoldeb am y flwyddyn oedd 90.5% sy'n galonogol ac yn rhywbeth i ni adeiladu arno eleni. Byddwn yn parhau i weithio i wella ein cyfraddau presenoldeb a gweithio'n agos agos rhieni, dysgwyr a'r Awdurdod Lleol i gyflawni hyn.

Absenoldeb:

- gyda caniatad: 4.9%
- heb ganiatad: 5.1%

**Adnoddau sin safle:**
Mae gan y safle gyfleusterau digonol ar gyfer nifer y disgyblion a'r staff presennol. Defnyddiwyd Newport Norse ar gyfer glanhau a chynnal a chadw'r safle bob dydd ond mae'r ysgol bellach yn gyfrifol am lanhau a chadw'r safle nes Ebrill 2025. Rydym nawr yn cyflogi staff ein hunain i fod yn gyfrifol am lanhau a chadw'r safle.

**Cyfleusterau Toiledau**
Mae cyfleusterau tŷ bach ar gael ar bob llawr o'r ysgol, yn cynnwys tai bach i ddisgyblion, staff a thai bach i'r anabl. Mae'r rhain mewn cyflwr da ac yn cael eu glanhau bob dydd. Mae gan bob toiled gyfleuster dŵr poeth, sebon a sychu dwylo. Mae'r toiledau hyn yn cael eu glanhau'n rheolaidd gan lanhawyr yr ysgol. Maent yn cael eu gwirio'n rheolaidd gan reolwr y safle.

**Ysgol Iach**
Mae pob dysgwr CA3 yn cael gwers CAD awr yr wythnos i gyfrannu at ddarpariaeth Iechyd a Lles ac ABCh ac wedi derbyn gwersi ar themâu priodol, e.e. bwyta'n iach, perthnasoedd iach a diogelwch ar-lein. Mae dysgwyr CA4 yn derbyn profiadau cyfoethog ar ffurf gweithdai achlysurol fel rhan o'n rhaglen lles.

Mae ffynhonnau dŵr ar gael ym mhob coridor o'r hen adeilad i aillenwi poteli dŵr.

**Bwyta'n Iach**
Rydym yn hybu bwyta'n iach trwy annog plant i fwyta byrbrydau iach yn ystod amser egwyl y bore, a chinio iach yn ystod amser cinio. Rydym ni'n addysgu plant am bwysigrwydd diet cytbwys trwy wersi CAD, gwyddoniaeth ac Arlwyo.

**Gwisg Ysgol**
Mae ein gwisg ysgol yn cydymffurffio'n llawn â chanllawniau Llywodraeth Cymru, a rhan bwysig o hyn yw ein siop wisg ysgol yn yr ysgol, sydd ar gael i bawb yn ystod Nosweithiau Rhieni a dyddiadau penodedig.

**Polisïau a gweithdrefnau**
Mae'r corff llywodraethu'n adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau trwy gydol y flwyddyn academaidd. Gellir gweld rhestr o holl bolisïau cyfredol yr ysgol ar ein gwefan yn [www.gwentiscoed.cymru.](www.gwentiscoed.cymru)

**Polisïau**
Adolygwyd a phasiwyd y polisiau canlynol:

- **Diogelwch ac Amddiffyn Plant/ Safeguarding and Child Protection**
- **Ymddygiad disgwyliedig gan rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr / Expected Behaviour of parents, carers or visitors**
- **Ymyrraeth Gorfforol Gyfyngol / Restrictive Positive Intervention**

## Cwricwlwm

‘Cwricwlwm ysgol yw popeth y mae dysgwr yn ei brofi wrth fynd ar drywydd y pedwar diben. Nid dim ond yr hyn rydyn ni’n ei addysgu, ond sut rydyn ni’n addysgu ac, yn hollbwysig, pam rydyn ni’n ei addysgu.’ (Llywodraeth Cymru, 2020).

Pedwar diben Cwricwlwm i Gymru yw sicrhau bod ein dysgwyr yn uchelgeisiol a galluog, eu bod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, yn unigolion iach a hyderus ac yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus.

Yma yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, rydym yn gosod dysgwyr wrth galon popeth a wnawn, ac yn rhoi cyfle iddynt brofi cwricwlwm eang a bywiog trwy gyfrwng y Gymraeg. Atgyfnerthir gwerthoedd yr ysgol sef Cymreictod, Caredigrwydd, Uchelgais, Perthyn, Hapusrwydd, Cydweithredu, Parch a bod yn Fentrus trwy’r cwricwlwm, sydd yn adlewyrchu’r hyn y mae’n ei olygu i gyflawni’r pedwar diben.

Cefnogir ein cwricwlwm gan ein ‘Pum Piler’ addysgeg sef 'Ymddygiad ar gyfer Dysgu', 'Anelu at y Sêr', 'Cynllunio Gofalus', 'Asesu' a 'Datblygu Medrau' sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi ag ymchwil gyfredol. Y pileri hyn yw’r sylfaen sy’n galluogi ein Meysydd Dysgu a Phrofiad i sicrhau bod ehangder, dyfnder a her yn ein cynlluniau gwaith sy’n cyfateb i’n gwerthoedd.

### Cyfrwng yr ysgol

Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn ysgol uwchradd Gymraeg dynodedig ar gyfer dysgwyr 11-18 oed. Mae'n cael ei chynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd ac mae'n gwasanaethu Casnewydd a De Mynwy. Cymraeg yw iaith swyddogol Ysgol Gyfun Gwent Is Coed a dyma gyfrwng dysgu ac arholi pob pwnc ac eithrio'r Saesneg. Mae pob disgybl yn astudio Cymraeg fel pwnc a dim ond yn sefyll arholiadau iaith gyntaf yn Gymraeg. Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn gynhwysol. O dan amgylchiadau arferol mae mynediad i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn agored i ddisgyblion 11+ oed o unrhyw allu a chydag anghenion arbennig.

### Blaenoriaethau Strategol 2022-2025

**Blaenoriaeth 1**: Sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn y medrau darllen, rhifedd a chymhwysedd digidol drwy ddatblygu darpariaeth gydlynol llwyddiannus.
**Blaenoriaeth 2**: Gwella agwedd ychydig o’r dysgwyr tuag at ddysgu mewn modd pwrpasol.
**Blaenoriaeth 3**: Sicrhau bod y ddarpariaeth yn herio, ymestyn ac yn cefnogi pob dysgwr er mwyn iddynt allu gwneud cynnydd effeithiol.
**Blaenoriaeth 4**: Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn gryf.
**Blaenoriaeth 5**: Cynyddu capasiti’r arweinyddiaeth yn fedrus er mwyn sicrhau bod arweinwyr ar draws yr ysgol yn gweithredu’n fwy strategol yn eu meysydd cyfrifoldeb.

## Aelodaeth y Corff Llywodraethol 2024-2025

| Enw | Math o Lywodraethwr | Tymor yn dod i ben |
|---|---|---|
| Mrs Eirian Jones | Pennaeth | |
| Mrs Kate Olsen (C) | Rhiant/Parent | 27.04.2025 |
| Mrs Ruth Harris (IsC) | Cymunedol | 15.05.2025 |
| Mr John Harris | ALl | 31.08.2028 |
| Mrs Jane Marshall | Rhiant | 27.04.2025 |
| Mrs Nicola Crawley | Rhiant | 27.04.2025 |
| Mrs Rachel Morgan | Cynrychiolydd staff | 14.03.2025 |
| Mrs Abigail Williams | Swyddog Cyswllt heb bleidais | |
| Mrs Sharanne Basham-Pyke | Cymunedol | 29.11.24 |
| Ms Elen Jones | Cymunedol | 11.05.2025 |
| Mr Andrew Phillips | Rhiant | 14.11.2026 |
| Mrs Jen Pollock | Rhiant | 18.04.2027 |
| Mrs Rhiannon England | Cynrychiolydd athro | 28.01.2028 |
| Miss Alis Lewis | Cynrychiolydd athro | 28.01.2028 |
| Mrs Lona Jones-Campbell | Cymundeol | 25.09.2027 |
| Mrs Claire Hoey | Cymunedol | 18.09.2027 |

**Treuliau Llywodraethwyr**
Yn ystod y flwyddyn 2024/2025, ni dalwyd treuliau i unrhyw lywodraethwyr am eu gwaith i'r ysgol, ac nid oedd costau teithio chwaith o ganlyniad i'w gweithgareddau ar ran yr ysgol.

**Ymgynghorydd her o'r GCA**:
Mike Davies Mai 2022-Gorffennaf 2025

**Cysylltu â ni**
Gallwch gysylltu â ni drwy:
Ffôn: 01633 851614
E-bost: gwent.iscoed@ysgolioncasnewydd.cymru
Gwefan: https://www.gwentiscoed.cymru/

Os dymunwch gopi o galendr yr ysgol neu'r prosbectws diweddaraf, cysylltwch â'r brif swyddfa neu edrychwch ar ein gwefan yn www.gwentiscoed.cymru.

**Dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgolion 2025 / 2026:**

# Casnewydd

| Cyfnod | Dechrau | Diwedd |
|---|---|---|
| Tymor yr Hydref 2025 | Dydd Llun 01 Medi | Dydd Gwener 19 Rhagfyr |
| Hanner Tymor yr Hydref 2025 | Dydd Llun 27 Hydref | Dydd Gwener 31 Hydref |
| Tymor y Gwanwyn 2026 | Dydd Llun 05 Ionawr | Dydd Gwener 27 Mawrth |
| Hanner Tymor y Gwanwyn 2026 | Dydd Llun 16 Chwefror | Dydd Gwener 20 Chwefror |
| Tymor yr Haf 2026 | Dydd Llun 13 Ebrill | Dydd Llun 20 Gorffennaf |
| Hanner Tymor yr Haf 2026 | Dydd Llun 25 Mai | Dydd Gwener 29 Mai |

Bydd yr ysgol ar gau am chwech dydd o HMS rhwng Dydd Llun 1 Medi 2025 a 17 Gorffennaf 2026. Gweler dyddiadau'r dyddiau Hyfforddiant Mewn Swydd isod:
01/09/25
24/11/25
13/02/26
27/03/26
26/06/26
20/07/26

**Gwyliau Banc**
Gwener y Groglith:  03.04.2026
Llun y Pasg: 05.04.26
Gwyl Fai: 04.05.26
Gwyl y Banc Gwanwyn: 25.05.26

## Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

### Financial Statement for Year Ending 31st March 2025

| 2023/24 Outturn | | | 2024/25 Outturn |
|---|---|---|---|
| £ | **Employees** | | £ |
| 2,702,337 | Teachers | *Teachers* | 2,891,543 |
| 295,882 | Support Staff | *Support Staff* | 298,276 |
| 920 | Caretakers | *Caretakers* | 0 |
| 29,857 | Midday Supervisors | *Midday Supervisors* | 9,163 |
| 0 | Cleaners | *Cleaners* | 0 |
| | **Other Employee Costs** | | |
| 29,279 | Supply Insurance Premium | *Supply Insurance* | 31,496 |
| 74,547 | Agency Staff | *Agency* | 73,844 |
| 0 | Lunch Time Meal Entitlement | *Lunch Entitlement* | 0 |
| 0 | Foreign Language Assistants | *FLA* | 0 |
| 0 | Exam Invigilators | *Invigilators* | 0 |
| 0 | Advertising | *Advertising* | 2,095 |
| 0 | Interview Expenses | *Interview Exp* | 0 |
| 354 | Misc Employee Costs | *Misc Ees* | 222 |
| | **Energy** | | |
| 24,787 | Gas | *Gas* | 8,930 |
| 99,856 | Electricity | *Electricity* | 64,688 |
| 0 | Oil | *Oil* | 365 |
| 179,842 | **Capitation and ICT** | *Capitation* | 83,621 |
| 0 | **SCC, EIG and PDG Expenditure** | *SCC Expenditure* | 0 |
| | **Premises Related** | | |
| 0 | Hire of Facilities | *Hire of Facilities* | 0 |
| 61,766 | Rates | *Rates* | 65,455 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 46,877 | Building Maintenance and Alarm Lines | *Building Maint* | 14,345 |
| 9,140 | Grounds Maintenance | *Grounds Maint* | 10,867 |
| 3,063 | Water | *Water* | 2,498 |
| 174,462 | Building Cleaning Contract | *Building Cleaning* | 158,880 |
| 7,429 | Refuse Collection | *Refuse* | 5,016 |
| 3,150 | Miscellaneous Premises | *Misc Premises* | 11,025 |
| | **Communications** | | |
| 857 | Postage/Fax/Telex | *Postage/Fax/Telex* | 1,366 |
| 8,152 | Telephones | *Telephones* | 9,769 |
| | **Transport** | | |
| 86 | Vehicle Maintenance | *Vehicle Maint* | 687 |
| 0 | Purchase of Vehicles | *Purchase of Vehicles* | 0 |
| 32,641 | Vehicle Hire | *Vehicle Hire* | 7,961 |
| 572 | Car Allowance | *Car Allow* | 727 |
| 1,615 | Travel Expenses | *Travel Exp* | 997 |
| 73,917 | **Exam Fees** | *Exam Fees* | 68,210 |
| | **External Courses** | | |
| 21,113 | School Funded Training | *School Funded Training* | 9,277 |
| 0 | Alternative Curriculum Provision | *Alternative Curriculum Provision* | 0 |
| 23,254 | Sixth Form | *Sixth Form* | 4,836 |
| 77,648 | **Central Services** | *Central Services* | 81,128 |
| | **Income** | | |
| -3,312 | Lettings | *Income Lettings* | -9,550 |
| 0 | Sales Income | *Income Sales* | -5,440 |
| 0 | Music Service Income | *Income Music Service* | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *Income* | |
| -2,162 | Donations | *Donations* | 824 |
| 0 | Miscellaneous | *Income Misc* | 0 |
| -29,443 | Supply | *Income Supply* | -84,199 |
| 0 | Exam Fees | *Income Exam Fees* | 0 |
| -6,125 | Interest | *Income Interest* | 23,519 |
| 0 | Rental Income | *Income Rental* | 0 |
| 0 | EIG | *EIG* | 0 |
| 0 | PDG/EYPDG | *PDG/EYPDG* | 0 |
| 0 | Energy Compensation | *Energy Comp* | 0 |
| 0 | Coaching Fees | *Income Coaching* | 0 |
| -631,931 | Other Grant and Contributions | *Contributions* | -1,450,248 |
| 0 | Reserve Transfer | *Reserve Transfer* | 0 |
| 0 | After Schools Club | *Income After School* | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| 3,310,429 | **Total Net Expenditure** | 2,392,192 |

| | | |
|---|---|---|
| 2,577,525 | **Total Funding** | 2,876,126 |
| -732,905 | In Year Surplus / Deficit | 483,934 |
| 248,971 | Prior Year Surplus / Deficit | -483,934 |
| -483,934 | **Accumulated Surplus / Deficit c/fwd** | 0 |
| -18.78% | Balance as % of Funding | 0.00% |